

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Abernant
Neuadd Talog, Nos Iau, 6ed o Fedi, 2018

Yn bresennol: Mr Ian Williams, Mrs Katrina Gabillia, Mr Eirian Howells, Mr Chris Bish, Cyngorydd Mrs Jean Lewis

1. Sylwadau'r Cadeirydd: Mi wnaeth y Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod

2. Ymddiheuriadau am absenoldeb: Pawb yn bresennol

3. Cadarnhau cofnodion mis Gorffennaf:

Cynnig: Mrs Katrina Gabillia

Eilio: Mr Chris Bish

Cywiro Cofnodion mis Gorffennaf - Mi roedd Mr Chris Bish yn bresennol yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

4. Materion yn codi o'r cofnodion:

(a) Adran gyfreithiol yn delio gyda materion parhaol ar stad Lôn y Felin.

(b) Mae Cadeirydd Cyngor Cymuned Abernant wedi danfon llythyr at D.T. Williams yn Adran Priffyrdd y Cyngor Sir ynghlyn a'r broblem o goed yn gordyfu ym mhentref Talog. Clerc i gysylltu gyda Cyngor Sir Gâr.

(c) Gwaith ar y pont troed wedi ei gwlbhau. Gwaith ar y llwybrau cyhoeddus i ddechrau mor fuan a phosib.

(ch) Cadeirydd y Cyngor Cymuned wedi siarad gyda pherchennog y swyddfa bost blaenorol, ac yn hapus i'r Cyngor Sir rhoi bin sbwriel tu allan i'r adeilad.

(d) Clerc i sicrhau bydd yr ysgubwr yn mynd drwy bentref Talog.

(dd) Dim ymateb wrth BT ynghlyn a phryd bydd Band Lydan yn fyw.

(e) Angen i'r Adran Briffyrdd drwsio arwyddion yn yr ardal. Mae'r clerc eisoes wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir.

(ff) Nifer o broblemau sydd eisoes wedi cael eu gyflwyno i'r Cyngor Sir dal heb gael ei datrys. Clerc i ddanfon e-bost i'w hatgoffa. Angen arwydd 'Give Way' ger cyffordd Capel Cendy.

5. Gohebiaeth:

Cafodd nifer o lythyron ac e-byst sylw'r Cyngorwyr.

Mi ystyriwyd cais cynllunio lleol oddi wrth Adran Cynllunio Cyngor Sir Gâr. Cyngorwyr yn hapus i gymeradwyo.

6. Diffibriliwr

Penderfynwyd i wneud trefniadau gyda chwmni Cariad i rhoi'r pump diffibriliwr yn eu lle. Clerc i ofyn os oes modd cael braced er mwyn rhoi diffibriliwr yn ei le ym mhentref Bwlchnewydd.

7. Ceisiadau Elusennol

Ystyriwyd nifer o geisiadau elusennol a phenderfynwyf i gefnogi y canlynol:

Llyfr Llafar Caerfyrddin, Clwb Ffermwyr Ifanc Abernant, Shopmobility Caerfyrddin, Siop Tenovus Caerfyrddin.

8. I'w drafod

(a) Adroddiadau o boncyff sydd angen gael ei dorri ger Capel Bethania.

(b) Adroddiadau o goed marw ar yr hewl o Gapel Bethania i Ysgol Penrhiwlas gynt.

(c) Cylfat wedi suddo ger pwmps petrol ym mhentre Talog.

(ch) Mi mynegwyd siomedigaeth gan y gynghorwyr am ansawdd dorri cloddiau yr ardal eleni.

(d) Mae'r contractwyr sydd wedi bod yn neud gwaith ar y pont troedffordd wedi creu llanast. Cadeirydd i ddelio gyda hwy yn uniongyrchol.

(dd) Dau aelod o'r cyhoedd wedi dangos diddordeb i fod yn Gynghorwyr ar Gyngor Cymuned Abernant.

9. Taliadau:

Neuadd Gymunedol Talog (Llogi'r Neuadd) -£10

Cyllid a Thollau - £62.60

Terfynwyd y Cyfarfod am 9.45yh. Cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 3ydd o Hydref yn Ysgol Abernant am 7.30yh.

